



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm
Clydach, CF40 2XX
Dydd Iau, 20fed Medi, 2018 am 2.00 pm

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol
(Rhif ffôn. 01443 424110)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 18 Medi 2018. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2018 yn rhai cywir.

(Tudalennau 5 - 12)

3. RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNIGION I WELLA DARPARIAETH ADDYSG YNG NGHWM CYNON

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n rhoi gwybod i Aelodau o gynigion rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif mewn perthynas â gwella darpariaeth addysg yng Nghwm Cynon.

(Tudalennau 13 - 48)

4. CYNIGION I SEFYDLU DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD AR GYFER DATBLYGIAD TAI LLANILID

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, sy'n gofyn am gymeradwyaeth Aelodau i roi'r ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol ar waith ar gyfer y cynnig i sefydlu darpariaeth addysg gynradd newydd i wasanaethu'r datblygiad tai newydd yn Llanilid, Llanharan.

(Tudalennau 49 - 74)

5. PARHAU I WELLA DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YN RHONDDA CYNON TAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, sy'n rhoi manylion grantiau refeniw a chyfalaf i leihau maint dosbarthiadau babanod ar draws y Fwrdeistref Sirol i Aelodau, a'r cynigion o ran gwario'r grantiau yma.

(Tudalennau 75 - 102)

6. PARTNERIAETH Â CHOLEG YR IWERYDD (COLEGAU UNEDIG Y BYD)

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, sy'n rhoi gwybod i Aelodau am y cyfleoedd y byddai modd i bartneriaeth â Choleg yr Iwerydd (Colegau Unedig y Byd) eu cynnig i fyfyrwyr dros 16 oed yn Rhondda Cynon Taf.

(Tudalennau 103 - 146)

7. YMGYNGHORIAD AR DDARPARIAETH MEITHRINFYDD ORIAU DYDD Y MAE'R CYNGOR YN EI CHYNNAL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybod i Aelodau am ganlyniad yr ymgynghoriad a gafodd ei roi ar waith gan y Cabinet mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth Meithrinfeydd oriau dydd y mae'r Cyngor yn ei chynnal yn Ynyscynon.

(Tudalennau 147 - 156)

8. CODI TÂL AM OFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION NAD YW'N BRESWYL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar ganfyddiadau ymgynghoriad mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i bolisi codi tâl y Cyngor ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion nad yw'n breswyl sy'n ymwneud â gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd.

(Tudalennau 157 - 162)

9. YMGYNGHORIAD LLYFRGELLOEDD TEITHIOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, sy'n rhoi gwybod i Aelodau am yr adborth a ddaeth i law o'r ymgynghoriad a gafodd ei roi ar waith gan y Cabinet mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd Teithiol.

(Tudalennau 163 - 200)

10. RHAGLEN WAITH Y CABINET 2019-19

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2018–19.

(Tudalennau 201 - 234)

**11. ADRODDIAD CYFLAWNIAD AC ADNODDAU'R CYNGOR
(CHWARTER 1)**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n rhoi trosolwg i Aelodau o gyflawniad y Cyngor dros dri mis cyntaf y flwyddyn ariannol yma (hyd at 30 Mehefin 2018), o ran materion ariannol a gweithredol fel ei gilydd.

(Tudalennau 235 - 254)

12. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

**13. NODWCH ER GWYBODAETH: DERBYN DIWEDDARIAD AR
GYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD AR GYFER BLWYDDYN Y
CYNGOR 2018-19**

[Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd](#)



**Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau
Llywodraethol**

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Esther Thomas, Gyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant
Jane Cook, Cyfarwyddwr Uwchadran Adfywio, Cynllunio a Thai
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant